

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Gofynnwn yn garedig i bawb sicrhau bod eu cyfraniad ariannol at gronfa'r adeiladu yn cyrraedd yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd erbyn Medi 27ain fan bellaf. Diolch yn fawr iawn.

ARGYFWNG Y FFOADURIAID

Rydyn ni wedi sicrhau cyflenwad o amlenni casglu arbennig ar gyfer argyfwng gan Cymorth Cristnogol er mwyn i ni fedru cyfrannu'n ariannol at eu hapêl i helpu ffoaduriaid yn Ewrop a'r Dwyrain Canol.

Byddwn yn dosbarthu'r rhain yn gyfnodol dros y blynyddoedd nesa, er mwyn cynnig cefnogaeth gyson i argyfwng tymor-hir. Bydd y casgliad cyntaf yn digwydd ar ddiwedd yr oedfa heddiw, drwy ddsbarthu amlenni, a byddwn yn eu casglu dros y mis nesaf, er mwyn i'n cefnogaeth ni gael dechrau'n ddi-oed. Cewch fwy o wybodaeth yn ystod yr oedfa.

Y SULIAU NESAF

Medi 27:

Geraint Rees

Llywydd: Wyn Jones

Taflen: Gwilym Huws

Sgrin: Geraint Rees

Hydref 4:

Oedfa Gymun dan ofal aelodau

Llantrisant, Meisgyn, Tonyrefail

Taflen: Gwilym Huws

Hydref 11:

Gwasanaeth Diolchgarwch

Taflen: Dafydd Roberts

Hydref 18:

Y Parchg. Hywel Wyn Richards

Llywydd: Rhiannon Humphreys

Taflen: Ros Evans

CASGLIADAU BWYD A DILLAD

Mae gan dimau Teuluoedd mewn Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflenwad digonol o ddillad ar y funud, felly fydd dim casglu yn ystod y misoedd nesaf. Maen nhw'n gofyn yn garedig i ni fod yn barod i ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd, fel bo'r galw.

Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul. Maen nhw'n gofyn a allwn ni gasglu bocsys wyau hefyd, gan fod ffermwr lleol wedi addo cyflenwad o wyau iddyn nhw.

ELUSENNAU 2016

Daeth hi'n amser dewis elusennau ar gyfer rhannu cynnwys yr amlenni brown unwaith eto. Elusennau bach lleol yw'r rhain fel arfer, rhai y mae ychydig gannoedd o bunnoedd yn gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Os oes gennych awgrymiadau, rhowch wybod i **John**, 01443 218077 / johnllewt@hotmail.com neu **Ann**, 0292 0891 344 / ann.pentyrch@btinternet.com cyn diwedd mis Hydref.



CYLCH CADWGAN Nos Wener 2 Hydref Y Ganolfan, Efail Isaf 8.00 pm

Gareth F. Williams
Enillydd 'Llyfr y Flwyddyn' 2015

Y DAFLEN A'R SGRINIAU

Rydym wirioneddol angen rhagor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau. Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emllyn Davies ar 02920 891344 neu emlyn.davies@which.net

YR ADEILADU

Rydym yn gobeithio arwyddo cytundeb gyda'r adeiladwyr yr wythnos hon, ac felly mae'n debygol mai ar Hydref 4^{ydd} y byddwn yn symud yr oedfaon i Neuadd y Pentref. Cawn weld!

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Medi 21ain. Os hoffai unrhyw aelod o'r gynulleidfa godi pwnc i'w drafod neu dynnu sylw'r cyfarwyddwyr at unrhyw fater, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws ar 01443 225205 neu gehpengwern@yahoo.co.uk